**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM

Cyfarfod am 18:30, dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2017, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel

## COFNODION

**Yn bresennol:**

David Rees AC (Cadeirydd), Huw Irranca-Davies AC, Mark Isherwood AC, a Dr Robert Hoyle, Lesley Kirkpatrick, David Jones, Bob Cater, Rhys Phillips, yr Athro Tom Crick MBE, Wendy Sadler MBE, Dr Dayna Mason, Andrew Mackenzie, yr Athro Faron Moller, a Leigh Jeffes.

**Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Steve Lawrence, Cadeirydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru, a'n siaradwyr, Lesley Kirkpatrick, Prif Swyddog Gweithredol Techniquest, a Dr Robert Hoyle, Pennaeth Prosiectau Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru.

**Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Nick Ramsay AC, yr Athro Julie Williams CBE, Keith Jones, Dr Stephen Benn, Helen Francis, yr Athro Mike Edmunds, Dr Lucy Meredith, Dr Geertje van Keulen a Cerian Angharad.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2017**

Dosbarthwyd y rhain eisoes.

**Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Gwyddoniaeth a'r Cynulliad 2017 – Adroddiad**

Soniodd Leigh Jeffes am ddigwyddiad blynyddol y Gymdeithas Gemeg Frenhinol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin. Ymwrthedd gwrthficrobaidd oedd y thema. Diolchodd i'r Cadeirydd a'r Is-gadeiryddion am noddi ac am siarad yn y digwyddiad, a diolchodd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r 30 o gymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol am gymryd rhan yn yr arddangosfa.

**Adroddiad yr Academïau Cenedlaethol ar rôl cyllid yr UE yn ymchwil y DU**
Nododd aelodau'r adroddiad hwn, a oedd wedi cael ei ddosbarthu.

**Y wybodaeth ddiweddaraf gan gymdeithasau dysgedig a chyrff proffesiynol**
Rhannodd cynrychiolwyr y wybodaeth ddiweddaraf am eu gweithgareddau presennol ac yn y dyfodol gyda'r grŵp. Ar ran y grŵp, llongyfarchodd y Cadeirydd Wendy Sadler a'r Athro Tom Crick am gael eu hurddo'n Aelodau o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE) yn rhestrau Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

**Pynciau i'w trafod yng nghyfarfodydd mis Tachwedd 2017 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) a mis Mawrth 2018**
Gofynnwyd i'r Aelodau roi eu hawgrymiadau i Leigh.
Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwahodd y Gweinidog dros Wyddoniaeth a Sgiliau i gyfarfod mis Tachwedd. Soniodd Leigh hefyd am y posibilrwydd o gael siaradwr i wneud cyflwyniad ar Ddata Mawr.

**Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf gan y cynrychiolwyr**
Gofyn i gynrychiolwyr ddarparu crynodeb o'u gweithgareddau presennol ac yn y dyfodol.

**Y wybodaeth ddiweddaraf gan swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol – Dr Robert Hoyle, Pennaeth Prosiectau Gwyddoniaeth, Llywodraeth Cymru**
Cyflwynodd Robert y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid anfon llythyr o ddiolch ar ran y grŵp i'r Athro Julie Williams CBE wrth iddi ddod i ddiwedd ei hamser fel y Prif Gynghorydd Gwyddonol, a'i llongyfarch ar ei phenodiad yn bennaeth ar y Ganolfan Dementia newydd ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Cyflwyniad: Lesley Kirkpatrick, Prif Swyddog Gweithredol, Techniquest**
Rhoddodd Lesley gyflwyniad cynhwysfawr ar y gwaith sy'n cael ei gwblhau gan Techniquest —a'r prosiectau arfaethedig ar gyfer y dyfodol—cyn ateb cwestiynau aelodau.
Diolchodd y Cadeirydd i Lesley am ei chyflwyniad ardderchog (i'w anfon mewn e-bost gyda'r cofnodion hyn).

**Unrhyw fater arall**
Cyhoeddodd Leigh fod Cymdeithas Ecolegol Prydain wedi cytuno i ymuno â'r grŵp, ac y bydd cynrychiolydd yn bresennol yng nghyfarfod mis Tachwedd.
Ni nodwyd unrhyw fater arall.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**
Dydd Mercher 1 Tachwedd (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol), am 18.30.

**Diwedd y cyfarfod**
Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 19.40.